2024

# Adroddiad ar Effaith

2025

CarmDAS
GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG
mae pob cam yn gynnydd
CARMARTHEN DOMESTIC ABUSE SERVICES
every step is progress

# Table of Contents


01 Rhagair gan y Prif Swyddog Gweithredol

02 Ein Gwasanaethau

03 2024-25 mewn Ffigurau

04 Cymorth Wyneb yn Wyneb

05 Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gâr

06 Cymorth i Blant a Phobl Ifanc

07 Prosiectau a Ariennir gan Grantiau

08 Cerrig Milltir Allweddol

09 Ymateb i Blant a Phobl Ifanc

10 Taith Cymorth

11 Gwrando ar Goroeswyr

12 Symud Ymlaen

13 Cydnabyddiaethau

# Ymlaen

## Colleen Bennett Prif Swyddog Gweithredol



Rwy'n falch o gael rhannu adroddiad blynyddol eleni a neilltuo ennyd i fyfyrio ar ein gwaith hanfodol yng Ngwasanaethau Cam-drin Domestig Caerfyrddin. Bob dydd, cawn ein hysbrydoli gan ddewrder a chydnerthedd y rheiny sy'n estyn allan atom.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein tîm wedi cefnogi dros 1,000 o unigolion, sy'n gynnydd o 26% oddi ar y flwyddyn flaenorol, gan ddarparu help i'r rheiny y mae camdriniaeth ddomestig yn effeithio arnynt.

Mae'r nifer cynyddol o bobl sy'n troi atom yn ein hatgoffa o natur hanfodol ein gwaith. Mae ar oroeswyr angen rhywun i wrando arnynt a sefyll ochr yn ochr â nhw, ac rydym yma ar eu cyfer bob cam o'r ffordd, gan gynnig diogelwch, gofal, a'r cyfle i oroeswyr wella ac ailadeiladu eu bywydau.

Mae ein cyflawniadau yn ganlyniad i ymrwymiad ein staff, ein gwirfoddolwyr, ein hymddiriedolwyr a'n partneriaid cymunedol. Rydym wedi ehangu gwasanaethau, cryfhau partneriaethau, a dyfnhau cysylltiadau cymunedol, gan symud yn nes at ddyfodol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u grymuso.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd atal ac addysg yn parhau i fod yn elfennau canolog o'n hymdrechion. Trwy weithio gydag ysgolion, gweithleoedd, a grwpiau cymunedol, rydym yn helpu pobl ifanc i ddysgu am berthnasoedd iach ac adnabod arwyddion camdriniaeth. Byddwn yn parhau i herio mythau ac agweddau niweidiol sy'n tawelu goroeswyr ac yn amddiffyn camdriniaeth. Mae newid gwirioneddol yn dechrau gydag ymwybyddiaeth, empathi, a'r dewrder i sefyll dros yr hyn sy'n iawn.

**Ein Gweledigaeth:** Credwn fod gan bawb yr hawl i fyw'n rhydd rhag camdriniaeth

**Ein Cenhadaeth:** Mae camdriniaeth ddomestig yn cyffwrdd â’n bywydau i gyd ac mae’n ganlyniad i anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Rydym yn bodoli i gefnogi pobl i fod yn rhydd rhag camdriniaeth a dewis eu taith eu hunain.

**Ein Dull Gweithredu:** Arweinir gan anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, ac yn ystyriol o drawma.

# Ein Gwasanaethau

Cymorth cysylltiedig â thai a llety brys

Rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth i wella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol

Cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i oedolion yn y gymuned

Grwpiau cymorth gan gymheiriaid ar gyfer goroeswyr camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol

Gwasanaeth pwrpasol i blant, pobl ifanc a theuluoedd y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt

dal i godi

Gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) ar gyfer dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel

Addysg a Hyfforddiant

# 2024-2025 mewn Ffigurau

Cefnogodd CarmDAS gyfanswm o **1,061** o unigolion, sef **695** o oedolion a **366** o blant



Roedd

**89%**

o'r plant a phobl ifanc yn teimlo bod y cymorth wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi gwella eu hunanwerth

Roedd

**94%**



o'r oedolion yn teimlo'n llai ynysig ac yn fwy cysylltiedig â'u cymuned

Dywedodd

**86%**




o'r oedolion fod eu llesiant emosiynol wedi gwella

Mae gan

**86%**

o'r oedolion fwy o hyder



Roedd

**88%**

o'r oedolion yn teimlo'n fwy diogel



Nododd

**87%**

o'r plant well dealltwriaeth o berthnasoedd iach a chamdriniaeth ddomestig

o'r oedolion a

**96%**



Dywedodd **85%**

o'r plant wrthym eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd



# Cymorth Wyneb yn Wyneb

“Eleni, dywedodd defnyddwyr ein gwasanaeth wrthym yn gyson gymaint y maent yn gwerthfawrogi apwyntiadau wyneb yn wyneb. Mae'r rhain yn adeiladu ymddiriedaeth mewn gofod diogel a chyfrinachol, gan ysgogi sgyrsiau ystyrlon, cymorth wedi'i deilwra, llesiant ac adferiad”
(Y Rheolwr Gweithrediadau)

**2430**

**o sesiynau wyneb yn wyneb wedi'u cynnal**

“Mae cael rhywle diogel i fynd iddo, a chael pobl i wrando arnaf, wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i mi, gan fy helpu i symud ymlaen â'm bywyd”

“Mae'r cymorth wyneb yn wyneb wedi fy helpu i ffocysu ar fy emosiynau, cydnabod pryd yr ydw i'n cael trafferth, a delio â'm trawma yn fy ffordd fy hun”

“Mae'r cymorth wyneb yn wyneb wedi fy helpu i ffocysu ar fy emosiynau, cydnabod pryd yr ydw i'n cael trafferth, a delio â'm trawma yn fy ffordd fy hun”

Rydym yn gweithio mewn modd tosturiol i geisio gwaredu rhwystrau i gymorth, a hynny am ein bod yn gwybod y gall rhai pobl deimlo eu bod wedi'u heithrio ac nad yw un dull o weithredu yn gweddu i bawb.

# Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gâr

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Mae Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gâr yn wasanaeth integredig ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc, sy'n cael ei gomisiynu gan Gyngor Sir Gâr, a'i ddarparu mewn partneriaeth â Threshold DAS a Gwasanaeth Trais Domestig Calan.

Yn rhan o'r bartneriaeth hon, mae CarmDAS yn darparu'r gwasanaethau canlynol:




## DASH

Parhaodd CarmDAS i arwain y Rhaglen DASH ledled y wlad, gan ddarparu sesiynau un i un a rhaglenni grŵp ar gyfer plant a phobl ifanc, a chymorth rhianta ar gyfer yr oedolyn nad yw'n cam-drin.

## Cymorth mewn Argyfwng

Yn rhan o wasanaeth Camdriniaeth Ddomestig Sir Gâr, mae CarmDAS yn darparu cefnogaeth a chymorth uniongyrchol i'r rheiny sy'n wynebu argyfwng. Mae ein dull camu i fyny, camu i lawr yn sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir, o'r eiliad y maent yn cysylltu â ni.

## Cymorth fel y bo'r Angen yn y Gymuned

Rydym hefyd yn darparu cymorth hanfodol i dros 300 o oedolion yn y gymuned, gan helpu pobl i wella eu bywydau trwy annog annibyniaeth a hyrwyddo llesiant. Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu pobl i feddwl am eu hopsiynau a rhoi cynllun ar waith fel y gallant fyw'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau.

## Llety Brys Dros Dro

Yn 2024-25, bu i ni gefnogi 16 o oedolion a 24 o blant a phobl ifanc (0-16 oed) yn ein lloches brys, gan ddarparu diogelwch, cymorth, gwellhad ac adferiad i deuluoedd a oedd yn ffoi rhag camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol.
O blith y rhai a symudodd ymlaen, cafodd saith teulu eu hailgartrefu, dychwelodd tri i fyw gyda theulu neu ffrindiau, a symudodd dau i lety diogel arall.
Eleni, aethom ati i gynyddu ein capasiti o bum lle i saith lle trwy ein llety gwasgaredig newydd.

# Cymorth i Blant a Phobl Ifanc

Yn 2024-25, roeddem wedi parhau i sicrhau bod plant yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn eu rhinwedd eu hunain, gan wneud cymorth ar eu cyfer yn flaenoriaeth allweddol trwy:







RYPP Respect Young People's Programme

### DASH

Eleni, aethom ati i weithredu asesiad cyfannol newydd sy'n cefnogi'r teulu cyfan

### Tripiau, teithiau a gweithgareddau grŵp

Daeth dros 160 o blant a phobl ifanc ar ein tripiau, ein teithiau a'n gweithgareddau grŵp, gan helpu plant i wella eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a chael hwyl mewn amgylchedd diogel

### Rhaglen Parch i Bobl Ifanc

Gwelsom gynnydd yn nifer y teuluoedd a roddodd wybod am ymosodedd ymhlith plant tuag at rieni neu ofalwyr. Mae ein Rhaglen Parchu Pobl Ifanc yn cynnig cymorth strwythuredig i helpu pobl ifanc i ddeall eu hymddygiadau, rheoleiddio eu hemosiynau, ac ailadeiladu perthnasoedd teuluol mwy diogel a pharchus

### Dull sy'n Addas ar gyfer y Teulu Cyfan

Aethom ati i gryfhau ein cymorth i'r teulu cyfan, gan helpu'r rhieni ac aelodau o'r teulu nad ydynt yn cam-drin i ddeall effaith camdriniaeth ddomestig ar bawb. Trwy gydweithio, gallwn dorri cylch o gam-drin sy'n pontio'r cenedlaethau a rhoi'r cyfle gorau i blant gael dyfodol mwy diogel a hapusach. Bu ein hymarferwyr plant a phobl ifanc yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i ddarparu cymorth un i un, gwaith grŵp, pecynnau gwybodaeth, a sesiynau rhianta wedi'u teilwra, gan helpu rhieni i ddeall ymatebion emosiynol ac ymddygiadol eu plentyn i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma

# Prosiectau a Ariennir gan Grantiau

Ochr yn ochr â'n gwasanaethau craidd, rydym hefyd wedi darparu amrywiaeth o brosiectau gwych a ariennir gan grantiau, gan gynnwys:

## DAL I GODI

Yn 2024-25, aeth gwasanaeth cynghorwyr annibynnol ar drais domestig (IDVA) CarmDAS ati, yn rhan o'r bartneriaeth Dal i Godi, i wella diogelwch 235 o ddioddefwyr a oedd yn wynebu risg uchel, gan ddarparu cymorth o ran cynllunio diogelwch, materion cyfreithiol, tai, eiriolaeth a MARAC

## Ty Rhosyn Atal Digartrefedd

Eleni, cawsom ein hatgoffa nad problem tai yn unig yw digartrefedd a bod meysydd eraill ym mywyd unigolyn yn gallu ychwanegu at y pwysau. Trwy roi cyngor ar gadw'n ddiogel, dod o hyd i gartref addas, rheoli rhent, osgoi dyled a lliniaru effeithiau tlodi bwyd, roeddem yn gallu cefnogi 97% o ddefnyddwyr y gwasanaeth i osgoi digartrefedd

## Prosiect Amethyst

Gwelwyd cynnydd mawr eleni yn nifer yr atgyfeiriadau at ein Prosiect Amethyst ar gyfer goroeswyr trais rhywiol.
Bu ein ISVA yn gweithio mewn modd tosturiol gyda dros 100 o oroeswyr, gan eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu clywed a bod rhywun yn gwrando arnynt.
Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu lle diogel i bobl allu deall eu hawliau a'u dewisiadau a dysgu sut i brosesu eu profiadau a rheoli eu trawma

## Cymorth gan Gymheiriaid VAWDASV

Yn 2024-25, roeddem wedi cefnogi 30 o fenywod a oedd yn adfer yn dilyn camdriniaeth ddomestig i adeiladu ar eu sgiliau, eu hobïau a'u diddordebau. Mae'r menywod hyn yn sicrhau buddion enfawr i'n cymuned ac i faterion sy'n bwysig i ni, gan helpu i greu newid cadarnhaol i eraill:

- Astudiaeth Beilot y Llwybr i Adferiad
- Cyfweliadau, holiaduron a grwpiau ffocws
- Fideo o'r effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth
- Rhoddion i'n marchnad ar-lein
- Meithrin ymwybyddiaeth o Ymgyrch y Rhuban Gwyn
- Glanhau traethau a chodi sbwriel

# Cerrig milltir allweddol

## LANSIO CAM-DRIN DOMESTIG SIR GÂR

Eleni, cafodd Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gâr ei lansio'n swyddogol, gwasanaeth a ddarperir gan CarmDAS mewn partneriaeth â darparwyr arbenigol eraill yn y sir

DASH
DOMESTIC ABUSE STOPS HERE

## PROSIECT DASH

Yn rhan o bartneriaeth Sir Gâr, parhaodd CarmDAS i arwain y Rhaglen DASH ledled y sir ar gyfer plant a phobl ifanc (0-16 oed)

## ACHREDIAD LEADING LIGHTS

Ym mis Ebrill 2025, bu i ni gyflawni achrediad Leadig Lights ar gyfer ein gwasanaeth IDVA risg uchel, Dal i Godi, gan adlewyrchu ansawdd uchel y gwasanaeth a ddarperir

## LLETY GWASGAREDIG NEWYDD

Aethom ati i symud teuluoedd i mewn i'n llety brys gwasgaredig sydd wedi'i adnewyddu'n llawn

## GWEITHDAI NEWYDD

Bu i ni gyflwyno gweithdai newydd i fynd i'r afael â chaledi ariannol ac argyfwng costau byw, gan helpu dros 200 o bobl i wella eu sgiliau ariannol

## GOFOD CYMUNEDOL NEWYDD

Bu i ni sicrhau gofodau cymunedol ychwanegol i alluogi i'n gwasanaeth dyfu a datblygu'n sylweddol yn ystod y deng mlynedd nesaf, a hynny'n rhan o'n cynllun strategol i ddarparu hwb cymunedol diogel ar gyfer goroeswyr camdriniaeth ddomestig



## CAMDRINIAETH AR ÔL GWAHANU

Aethom ati i gynnal ymgynghoriad tri mis â dros 100 o randdeiliaid i wella ein hymateb i gamdriniaeth ar ôl gwahanu

## RHUBAN GWYN

Ar Ddiwrnod y Rhuban Gwyn, aethom ati i gefnogi lansiad “Codi Llais yn Erbyn Trais” mewn cydweithrediad â Chyngor Ieuenctid Caerfyrddin; roedd dros 100 o gefnogwyr o blith ein cymuned leol yn bresennol gan helpu i greu newid ystyrlon i fenywod a merched yn ein cymdeithas

# Ymateb i Blant a Phobl Ifanc

## LLINIARU PROFIADAU NIWEIDIOL YN YSTOD PLENTYNDOD

Yn 2024-25, buom yn gweithio'n galed i leihau a mynd i'r afael ag effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod)

## GWAITH GRŴP

Addysgu plant a phobl ifanc am ddiogelwch, ymddiriedaeth a pharch yn eu perthnasoedd a'r ffaith nad eu bai nhw yw camdriniaeth ddomestig

## DIOGELU

Yn CarmDAS rydym yn defnyddio model cymorth cryfderau a chydnerthedd sy'n dod â gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r teulu ynghyd i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant

## THERAPI CHWARAE

Bu i ni hefyd ymateb i anghenion datblygiadol plant ifanc sydd wedi profi camdriniaeth ddomestig, gan eu helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol trwy therapi chwarae

## CANLYNIADAU CADARNHAOL

Yn 2024-25 bu i ni gefnogi plant i wneud y canlynol:

- cydnabod a rheoli teimladau ac emosiynau anodd
- deall a gosod ffiniau diogel o amgylch perthnasoedd iach a chydsyniad rhywiol
- meithrin perthnasoedd amddiffynnol diogel ag oedolion dibynadwy

## MEITHRIN YMWYBYDDIAETH

Roeddem hefyd wedi gweithio'n agos gydag ysgolion, busnesau a grwpiau cymunedol i feithrin ymwybyddiaeth o effaith trais ar sail rhywedd ar oedolion, plant a phobl ifanc, a hynny trwy ein Rhaglenni Hyfforddi 'Gofynnwch i Mi – Plant a Phobl Ifanc' a 'Strydoedd mwy Diogel'

## YMGYNGHORIAD DASH

Yn 2024, bu i ni ymgynghori â rhieni a gofalwyr i ddweud wrthym am y cymorth yr oedd eu plentyn wedi'i gael

Dywedodd 98% o'r plant a phobl ifanc wrthym fod eu sesiynau cymorth wedi eu helpu mewn modd cadarnhaol

DASH
DOMESTIC ABUSE STOPS HERE

# Taith Cymorth

## Creu Mannau Diogel ar gyfer Goroeswyr

Gwyddom fod siarad am gamdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol yn gallu bod yn eithriadol o anodd. Gall ofn, cywilydd, dryswch a phryder ynghylch cael eich credu atal pobl rhag cael yr help hanfodol y mae arnynt ei angen.


Yn CarmDAS rydym yn darparu cymorth ar bob cam o daith yr unigolyn, gan ddarparu gwybodaeth a chyngor ynghylch amrywiaeth o faterion megis tai diogel, y system cyfiawnder troseddol, y llys teulu, a chynllunio diogelwch mewn modd ymarferol.

Mae ein dull seiliedig ar drawma a lywir gan gryfderau yn cwrdd â phob unigolyn ag empathi nid beirniadaeth. Rydym yn deall bod pob stori yn unigryw, ac rydym wedi ymrwymo i gynnig lle diogel a chefnogol lle mae goroeswyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi, a bod ganddynt reolaeth ar eu taith eu hunain

## Taith Rhian


Cysylltodd Rhian â CarmDAS dros y ffôn gyntaf, a siaradodd ag un o'n gweithwyr cymorth arbenigol. Helpodd y sgwrs gyntaf honno hi i deimlo'n ddiogel a bod rhywun yn gwrando arni, a dechreuodd rannu ei stori






Yn ystod apwyntiad wyneb yn wyneb, aethom ati i drafod ei phrofiadau a chreu cynllun diogelwch a chymorth personol. Trefnwyd asesiad o ddiogelwch yn y cartref i'w helpu i deimlo'n fwy diogel

Pan benderfynodd Rhian adrodd am y cam-drin domestig a'r trais rhywiol, roeddem yno wrth ei hymyl. Gyda'n gilydd, rhoddasom wybod i'r heddlu ac ymweld â'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol leol i gymryd y camau nesaf





Mynychodd Rhian sesiynau llesiant rheolaidd gyda CarmDAS, gan roi lle diogel iddi brosesu ei phrofiadau, dysgu ffyrdd o reoli trawma, ailadeiladu hyder, a deall ei hawliau




Roeddem mewn cysylltiad agos â Rhian trwy gydol ei thaith: yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddi, yn ei chefnogi mewn apwyntiadau iechyd a gyda’r heddlu, ac yn ei chysylltu â gwasanaethau allweddol. Cyn yr achos, cafodd ei chefnogi i ymweld â'r llys i helpu i leddfu rhai o'i hofnau



Roedd mynd i Lys y Goron yn gam enfawr ac emosiynol. Cafodd Rhian adegau o amheuaeth, yn enwedig ynghylch cael ei chroesholi, ond gyda chymorth a gwaith paratoi dewisodd roi ei thystiolaeth trwy gyswllt fideo, a'i helpodd i deimlo'n fwy diogel a bod ganddi fwy o reolaeth



Pan aeth yr achos i'r llys yn y pen draw, roedd dewrder Rhian yn sicrhau cyfiawnder i'r cyflawnwr. Gyda'r achos y tu ôl iddi, mae ’nawr yn canolbwyntio ar ailadeiladu ei bywyd



Mae Rhian yn parhau i gymryd rhan yn ein Grŵp Cymorth gan Gymheiriaid ac yn bwriadu ymuno â'n rhaglen adfer pan fydd yn teimlo ei bod yn barod

# Gwrando ar Oroeswyr

Yn 2024-25, aethom ati i gasglu adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a chynnal sesiynau ymgysylltu dan arweiniad goroeswyr, a hynny er mwyn deall anghenion a phersbectifau unigryw y bobl yr ydym yn eu cefnogi:

## Y Fforwm Ieuenctid



**“Mae yna ddiffyg addysg ynghylch camdriniaeth ddomestig”**

**“Mae angen i bobl ifanc wybod beth yw cydsyniad”**

## Cymorth gan Gymheiriaid



**“Rwy'n teimlo'n gysylltiedig ac yn llai ynysig pan fydda i'n mynd i'r grŵp”**

## Llety Brys

**“Roeddwn yn teimlo fel petai holl staff y lloches yn fy mharchu; roeddent yno i wrando pan oedd arnaf eu hangen, gan ddarparu llawer o help ymarferol ac emosiynol i mi a'm plant”**



## Person Ifanc

**“Mwynheais gael y gefnogaeth. Dysgais sut beth ddylai perthynas iach fod, sut i fod yn fi fy hun a bod yn falch o hynny”**

## Rhiant


**“Dw i a'm mab yn bendant yn siarad yn fwy agored 'nawr”**

## Cymorth i Oedolion

**“Mae wedi gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ac yn fwy abl i ymdopi â'r sefyllfa. Mae fy IDVA wedi bod yn anfeirniadol ac yn gymwynasgar iawn”**

## Cyrsiau ar Adferiad

**“Roedd y cwrs yn brofiad o adfer gyda chymorth anhygoel drwyddo draw, ac wedi'i gyflwyno â sensitifrwydd”**



Yn ystod y flwyddyn nesaf, yn rhan o'n camau gweithredu strategol, byddwn yn gweithio'n galed i dyfu a datblygu ein gwasanaeth yn sylweddol

# CarmDAS yn Symud Ymlaen

Byddwn yn cynyddu ein hymateb i oroeswyr cam-drin rhywiol

Byddwn yn parhau i feithrin ymwybyddiaeth o gamdriniaeth ar ôl gwahanu a'r Llys Teulu

Byddwn yn ehangu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr

Byddwn yn blaenoriaethu plant a phobl ifanc, gan liniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Byddwn yn cynyddu ein ffocws ar fentrau seiliedig ar sgiliau a chyfleoedd hyfforddi

Byddwn yn lansio ein gwefan newydd ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddi

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynlluniau i ddatblygu hwb cymunedol diogel gyda ffocws ar leihau tlodi ac anfantais

Byddwn yn sicrhau bod llais goroeswyr yn parhau i fod yn ganolog i'n dyfodol

# Cydnabyddiaethau


**Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth barhaus ac am gredu yn ein cenhadaeth**

SafeLives – Ending domestic abuse

Cyngor Sir Gâr – Carmarthenshire County Council

Ministry of Justice

The Henry Smith Charity – founded in 1628

Home Office

LOTTERY FUNDED – Big Lottery Fund

Screwfix

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys – Police and Crime Commissioner

Teuluoedd yn Gyntaf – Families First

---

**Hoffem hefyd estyn diolch arbennig i'n cyllidwyr newydd yn 2024-25**

Millennium Trust Charitable Trust

The Moondance Foundation

the waterloo foundation

The Leathersellers


**Yn ymrwymedig i roi terfyn ar gamdriniaeth ddomestig trwy lety diogel, cymorth, eiriolaeth, addysg a hunanofal**